# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 125(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Dadl: Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2023-24

(30 munud)

**NDM8215** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cytuno ar y penderfyniad ynghylch cyfraddau Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru 2023-24 fel a ganlyn:

a) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd sylfaenol y dreth incwm yw 10c yn y bunt;

b) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd uwch y dreth incwm yw 10c yn y bunt; ac

c) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd ychwanegol y dreth incwm yw 10c yn y bunt.

## 4 Dadl: Cyllideb Derfynol 2023-24

(60 munud)

**NDM8213** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Prif Weinidog ar 28 Chwefror 2023.

## 5 Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2023-24

(60 munud)

**NDM8214** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2023-24 (Setliad Terfynol - Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2023.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

(180 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG): ymgyrraedd at y nodau llesiant**

**2. CPG: cyfarfodydd a chadeirio**

13, 16, 17, 18, 21, 23, 24, 25, 26, 28, 29, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38

**3. CPG: cynrychiolwyr gweithwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr**

14, 15, 19, 20, 22, 39, 40, 42

**4. Enwebiadau i'r CPG gan Wales TUC Cymru**

2, 27

**5. Ymlyniad gwleidyddol**

30, 41

**6. Is-grwpiau'r CPG**

3

**7. Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**

43

**8. Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol**

4, 1

**9. Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol**

5, 6, 12

**10. Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol**

7, 8, 9, 44, 46

**11. Cofrestr gontractau**

10, 11

**Dogfennau Ategol**

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod 2

Memorandwm Esboniadol, wedi'i ddiwygio ar ôl Cyfnod 2

Rhestr o welliannau wedi'u didoli

Grwpio gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/03/2023 i'w hateb ar 07/03/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

1 OQ59213 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd i bobl Cwm Cynon?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OQ59234 **(e)**

Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran ymgorffori gofal iechyd darbodus ym mhob agwedd ar iechyd a lles yng Nghaerdydd Canolog?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ59232 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â pha mor gystadleuol yw porthladdoedd Cymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

4 OQ59233 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â strategaeth economaidd Blaenau'r Cymoedd?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ59205 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r ansawdd uchaf posibl o addysg yn ysgolion Gorllewin De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OQ59208 **(e)**

Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud o bwysigrwydd cysylltedd ffyrdd i'r economi yng nghanolbarth Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

7 OQ59235 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am effaith rheoliadau ffosffad ar Ddwyfor Meirionnydd?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

8 OQ59231 **(w)**

Pa gamau sydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i leihau tlodi plant yng Nghanol De Cymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

9 OQ59229 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag awdurdodau cyhoeddus eraill ynglŷn ag amodau tai gwael yng Nghaerdydd ar gyfer myfyrwyr o Affrica?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

10 OQ59236 **(e)**

Pa asesiad diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effeithiau ymadael â'r UE ar drigolion a busnesau yn Ogwr?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ59230 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer meithrin cyfoeth cymunedol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ59194 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi athrawon gyda'r argyfwng costau byw yn Nwyrain De Cymru?